Yr ABCDEF o weld slefrenni môr

Os ydych yn gweld slefren fôr wrth ddeifio... mae diddordeb gennym! Gall arsylwadau syml megis lleoliad a dyfnder fod yn addysgiadol tu hwnt. I wneud adrodd arsylwadau o'r math yn haws rydym wedi datblygu'r ABCDE o weld slefrenni môr. Yna'r cyfan sydd angen ei wneud yw adrodd y canlyniadau ar www.jellyfish.ie

A) Cydgrynoadau o slefrenni môr? Ydych chi wedi gweld cydgrynhoad (blŵm/haid) o slefrenni môr? Os felly, pa fath o slefrenni môr oeddent, sawl slefren fôr oedd yn yr haid (10au, 100oedd 1000oedd, neu fwy), oedd y cydgrynhoad yn ffurfio haen gynnil ar ddyfnder arbennig neu oedd hi drwy gydol y golofn ddŵr?

B) Slefren Fôr Gasgen? Ydych chi wedi gweld Slefren Fôr Gasgen (Barrell Jellyfish)? Os felly, ble oedd hi a pha faint oedd hi (maint soser, plât ginio, caead bin sbwriel)?

C) Slefren Fôr Cyanea? Ydych chi wedi gweld Slefren Fôr Mwng Llew (Lion's Mane Jellyfish, Cyanea capillata i ddefnyddio'i henw Lladin)? Os felly, ble oedd hi ac ar ba ddyfnder y gwelsoch hi?

D) Slefren Fôr Farw? Ydych chi wedi gweld slefren fôr farw (neu'n fyw) ar wely'r môr? Os felly, pa fath o slefren fôr oedd hi ac oedd na mwy nag un slefren fôr?

E) Bwyta'n fyw? Ydych chi wedi gweld unrhyw anifail yn bwyta slefren fôr? Er enghraifft, ydych chi wedi gweld pysgodyn yr anemoni neu granc yn bwyta slefren fôr?

F) Pysgod a slefrenni môr? Ydych chi wedi gweld pysgod yn nofio gyda slefrenni môr? Os felly, faint o bysgod oedd gyda'r slefren fôr (0, 1, 2, 3-5, 6-10, 11-15, 15-20, 20-30, 30+), ble y gweloch chi hyn a faint o'r gloch y dydd/nos oedd hi?

Bob tro yr ydych yn gweld slefren fôr, y pethau pwysig i'w hadrodd yw: pa fath o slefren fôr ydyw, ei maint (maint soser, plât ginio, caead bin sbwriel), dyfnder y dŵr, tymheredd y dŵr, y lleoliad (500m i'r dwyrain o Ynys Dalkey), y dyddiad a'r amser y gwelwyd y slefren fôr.

A chofiwch, mae lluniau werth y byd a'i berlau! Ymhellach, bydd llun slefren fôr gorau'r flwyddyn yn **ennill** tocyn '***Taith am ddim i gar a dau berson i Iwerddon'*** gydag Irish Ferries.

Felly byddwch yn llipryn slefrenni môr a phrofwch eich ffrindiau deifio – ydych chi'n gwybod Cod ABC y Slefrenni Môr?!

Lluniau o'r pen i'r gwaelod: Michelle Cronin, Tom Doyle, Patricia Byrne, Oliver Buckley, Amy Dale ac Oliver Buckley

SOUTHERN & EASTERN Regional Assembly
IRELAND WALES 2007 – 2013
EUROPEAN REGIONAL DEVELOPMENT FUND
UCC Coláiste na hOllscoile Corcaigh, Éire University College Cork, Ireland
Prifysgol Abertawe Swansea University
IrishFerries.com The Low Fares Ferry Company